A, HEFYD, ANGYLION

Yn ei waeledd, yn ei wendid,
Fe fynnodd o ddod, y Nadolig,
I'r capel i weled ei wyrion
Yn actio doethion, yn actio angylion.

Fe wyddai o, ac fe ofnai ei deulu
Mai dyma'r tro olaf y byddai o'n gallu
Dod allan i'r lle y byddai o ynddo'n addoli
Er pan oedd o'n ddim o beth.

Un mis union yn ddiweddarach
Yr oedd yna, yn yr un capel,
Dyrfa gref yno'n ffarwelio'n
Dawel ag o, yn alarus ag o;
Ac yn eu plith yr oedd yna ddoethion
Bychain, diddeall a, hefyd, angylion.

Gwyn Thomas

Mae hon yn gerdd sy'n rhoi hanes digwyddiad sy'n gyfarwydd iawn i lawer o bobl o bob oed, sef drama'r Nadolig. Mae hi'n gerdd annisgwyl yn yr ystyr mai canolbwyntio a wna ar hen berson yn dod i weld y ddrama yn hytrach na chanolbwyntio ar blant ifanc yn cymryd rhan yn y ddrama. Yr hen berson yw'r prif gymeriad.

Mae hi'n stori drist am ddod i ddiwedd bywyd, a gorfod derbyn marwolaeth fel rhywbeth anochel.

Ond yn y diwedd, fel gyda llawer o gerddi Gwyn Thomas, mae yma elfen o lawenydd ynghanol y tristwch. Golygfa o angladd a gawn yma, gyda'r rhai a fu'n actio yn nrama'r Geni wedi dod nôl i'r capel, ond i angladd y tro hwn. Y gobaith yn y gerdd yw bod parhad y cenedlaethau i'w weld yma, a hwyrach ein bod yn cael yr awgrym y bydd yr 'angylion' a'r 'doethion' rywbryd yn eu henaint yn dod i weld drama'r Geni, a bydd eu hwyrion a'u hwyresau nhw yno'n actio yn ei tro.